| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| DYDDIAD | 26 MAI 2011 |
| TEITL YR ADRODDIAD | ADRODDIAD BLYNYDDOL AR ARCHWILIO MEWNOL 2010/11 |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | ER GWYBODAETH |
| ADRODDIAD GAN | PENNAETH GWASANAETH (ARCHWILIO) RSM TENON |
| GWEITHREDU | DIM |

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Yn yr adroddiad hwn, ceir crynodeb o'r gwaith a wnaed gan yr Adain Archwilio Mewnol yn ystod 2010/2011.

## 2. CYMHARIAETH O'R GWAITH GWIRIONEDDOL A CHYNLLUNIEDIG 2010/11

| **Categori o Waith** | Dyddiau Cynllun-iedig 2010/11 | Dyddiau Gwirion-eddol 2010/11 | % Y Gwahan-iaeth |
|---|---|---|---|
| Archwilio Cynlluniedig | 810 | 546 | -33% |
| Ymchwiliadau Arbennig | 75 | 85 | 14% |
| Gwaith ar gais y Swyddog Adran 151 | 20 | 18 | -10% |
| Cyngor ar Reolaethau, Systemau a Rheoliadau | 20 | 20 | 4% |
| Dilyn-i-fyny | 20 | 26 | 30% |
| Wrth Gefn | 10 | 10 | 0% |
| **Cyfanswm y Gwaith Archwilio** | **955** | **705** | **-26%** |
| Gwyliau Statudol/Gwyliau Blynyddol/Absenoldeb Arall | 190 | 179 | -6% |
| Salwch | 50 | 78 | 55% |
| Hyfforddiant | 65 | 19 | -71% |
| Gweinyddu Archwiliadau | 105 | 127 | 21% |
| Cynorthwyo a Chydweithio gydag Archwilwyr Allanol | 5 | 5 | 0% |
| Rhyddhau Sieciau | 35 | 46 | 32% |
| Pwyllgorau Archwilio | 35 | 64 | 82% |
| Swydd Wag | 0 | 70 | - |
| **Cyfanswm y Gwaith heb fod yn Waith Archwilio/Cynhyrchiol** | **485** | **588** | **21%** |
| **Cyfanswm y Dyddiau** | **1440** | **1293** | **90%** |

2.1 Mae'r ffigwr ar gyfer gwaith Archwilio yn is na'r ffigwr cynlluniedig o ddyddiau. Y prif resymau am hyn yw swydd a fu'n wag am 17 wythnos o'r flwyddyn a nifer gynyddol o ddyddiau a dreuliwyd ar Weinyddu Archwiliadau. Yn gyfatebol ac am yr un rhesymau, mae nifer y dyddiau a dreuliwyd yn gwneud gwaith heblaw gwaith Archwilio yn uwch na'r ffigwr cynlluniedig.

2.2 Er mwyn gwneud i fyny am y swydd wag o fis Medi 2010, mae'r Rheolwr Archwilio wedi bod yn defnyddio gwasanaethau Archwilwyr Mewnol RSM Tenon ynghyd ag un o Hyfforddeion Cyfrifeg y Cyngor. O'r herwydd, bu modd treulio rhywfaint o ddyddiau

ychwanegol at y ffigwr a ddangosir uchod yn gwneud gwaith Archwilio cynlluniedig ac adlewyrchir hyn yng nghanlyniadau perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol mewn perthynas ag adolygiadau / adroddiad terfynol a gwblhawyd yn ystod y cyfnod.

2.3 Felly, er bod gostyngiad yn nifer y dyddiau a dreuliwyd yn gwneud gwaith archwilio cynlluniedig, bu modd cynnal drwy gydol y cyfnod, lefel y canlyniadau mewn perthynas â nifer yr adroddiadau terfynol a ryddhawyd a'r ganran o'r Cynllun Gweithredu Mewnol a gwblhawyd.

## 3 GWAITH A WNAED YN YSTOD Y FLWYDDYN

3.1 Er bod cymhariaeth rhwng y dyddiau gwirioneddol a'r dyddiau a gynlluniwyd yn dangos yn fras sut y treuliwyd amser staff yn ystod y flwyddyn, nid yw'n dangos faint o waith a wnaed (h.y. sawl archwiliad wnaed). Mae'r tabl canlynol yn rhoddi cymhariaeth rhwng nifer yr archwiliadau a gynlluniwyd a'r archwiliadau a wnaed mewn gwirionedd. Yr un modd ag unrhyw flwyddyn arall, bu angen diwygio'r cynllun archwilio yn 2010/11 oherwydd nifer o bethau gwahanol trwy gydol y flwyddyn. Unwaith eto, roedd y ffactorau hyn yn ymwneud yn bennaf â gwaith ychwanegol y bu'n rhaid ei wneud i gwrdd â risgiau a oedd yn codi.

**Dadansoddiad o'r Archwiliadau a Gynlluniwyd/Wnaed yn ystod 2010/2011**

| Math o Archwiliad | Nifer a gynlluniwyd yn Wreiddiol | Gwaith Archwilio Gwblhawyd erbyn 31/3/11 | Adroddiad Drafft a Ryddhawyd erbyn 31/3/11 | Gwaith ar y Gweill 31/3/11 | Archwilio heb ei Ddechrau erbyn 31/3/11 |
|---|---|---|---|---|---|
| Systemau | 30 | 13 | 4 | 2 | 13 |
| Cydymffurfiaeth | 13 | 5 | 1 | 0 | 4 |
| Sefydliadau | 16 | 9 | 1 | 1 | 5 |
| Contract | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Arolygon heb eu cynllunio | 0 | 14 | 1 | 2 | 0 |
| Adroddiadau 09/10 | 0 | 11 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **60** | **52** | **8** | **5** | **22** |

3.2 Cwblhawyd 52 adroddiad archwilio ffurfiol yn ystod 2010/2011, o gymharu â 51 yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r cyfanswm felly'n gyson gyda pherfformiad yn 2009/10. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys 14 o Adroddiadau Terfynol ychwanegol a gyhoeddwyd yn 2010/11 a'r rheini yn wreiddiol heb eu cynllunio ar gyfer y cyfnod hwn ond roedd rhaid gwneud y gwaith oherwydd y risg/gofynion cydymffurfio neu o ganlyniad i waith ymchwilio.

Yn rhannol, roedd y 14 arolwg ychwanegol yn cymryd lle 22 arolwg na ddechreuwyd arnynt yn 2010/11. O'r 22 arolwg na ddechreuwyd gweithio arnynt, roedd gweithdrefnau newydd yn cael eu cyflwyno eleni i bedair system, a dwy arall yn cael sylw gan gyrff eraill yn ystod y flwyddyn a gofynnwyd am gael gohirio tri arolwg. Cafodd y 13 a oedd yn weddill eu gohirio oherwydd baich gwaith ychwanegol ac mae nifer o'r rhain wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol ar gyfer 2011/12.
Cafodd yr holl arolygon cyllidol allweddol yn y cynllun eu cwblhau a chyrraedd o leiaf lefel adroddiad drafft erbyn 31 Mawrth 2011 a'u cwblhau'n derfynol erbyn diwedd Ebrill 2011.

3.3 Er bod gwaith wedi'i gynllunio ar gyfer blynyddoedd unigol o fewn y cynlluniau strategol a blynyddol, fe geir peth gwaith unigol yn parhau o un flwyddyn i'r llall, yn arbennig gwaith archwilio mawr neu archwiliadau sy'n dechrau'n agos i ddiwedd y flwyddyn ariannol. Adlewyrchir hyn yn y ffaith bod, ar ddiwedd y cyfnod, un adolygiad system ac un adolygiad sefydliad lle'r oedd gwaith yn parhau cyn i adroddiad drafft gael ei gyhoeddi. Bydd yr arolygon hyn yn cael eu cwblhau yn ystod chwarter cyntaf 2011/12.

3.4 Ar 31 Mawrth 2011, roedd wyth o adroddiadau ar ffurf ddrafft.

## 4. DANGOSYDDION PERFFORMIAD

4.1 Bob blwyddyn, mae'r Gwasanaeth Arcwhilio Mewnol y Cyngor yn cymryd rhan yn ymarfer meincnodi Cymru gyfan mewn perthynas â dangosyddion sy'n ymwneud â chost ac allbynnau. Gwneir y gwaith meincnodi ym mis Mai / Mehefin bob blwyddyn ac nid oedd y canlyniadau ar gyfer 2010/11 ar gael mewn pryd i gael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol hwn.

4.2 Pan gaiff y canlyniadau eu cyhoeddi, cânt eu cynnig yn yr adroddiad cynnydd nesaf ar Archwilio Mewnol.

4.3 Fodd bynnag, gellir adrodd ar berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn targedau mewnol. Am y cyfnod i Ebrill 2010 i 31 Mawrth 2011, roedd perfformiad yn erbyn targedau mewnol fel a ganlyn:

| **Mesur Perfformiad Mewnol** | **Targed** | **Ffigwr Gwirioneddol wedi ei addasu ar gyfer y cyfnod*** |
|---|---|---|
| Canran o'r cynllun archwilio a gwblhawyd hyd yma (i lefel adroddiad drafft) | 90% | 100% |
| Canran y dyddiau taladwy hyd yma (955) | 100% | 74% |
| Lefelau boddhad cwsmer yn gyffredinol o holiaduron | 100% | 100% |
| % o'r holl argymhellion AM a weithredwyd | 80% | 71% |

* Canran y gwaith cynlluniedig a gwblhawyd yn ystod y cyfnod yn seiliedig ar 57 o adolygiadau yng Nghynllun 10-11 ynghyd â 3 a ddygwyd ymlaen = Cyfanswm o 60. Gan gynnwys adroddiadau ynghylch ymchwiliadau, cyhoeddwyd 52 o adroddiadau terfynol yn ystod y flwyddyn ac 8 o adroddiadau draft, sef cyfanswm o 60 yn ystod y cyfnod.

4.4 Ceir eglurhad am y ganran o'r dyddiadau taladwy a oedd yn is na'r targed a'r ganran o'r gwaith a oedd yn uwch na'r targed cynlluniedig ym mharagraff 2.2 uchod yr adroddiad hwn.

## 5 CASGLIAD CYFFREDINOL AR Y MEYSYDD A ARCHWILIWYD

5.1 Mae'r Tablau canlynol yn dangos cyfanswm nifer yr archwiliadau ar gyfer pob gradd archwilio yn achos pob un o'r prif feysydd archwilio. Mae'r crynodeb hwn yn rhoi syniad o safon gyffredinol y mesurau rheoli mewnol ym mhob maes a archwiliwyd.

5.2 Mae Tabl 1 yn dangos yr adolygiadau systemau yr ymgymerwyd â nhw lle rhoddir barn Gwyrdd; Gwyrdd/Ambr; Coch/Ambr neu Goch yn eu cylch. Ceir diffiniad isod ar gyfer pob un o'r lefelau sicrwydd;

| Gradd | Yr hyn a olygir gan farn CAG |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Gan gymryd i ystyriaeth y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd sylweddol bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi cael eu dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio mewn modd cyson ac effeithiol. |
| **Gwyrdd Ambr** | Gan gymryd i ystyriaeth y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod fod yn rhesymol sicr bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi cael eu dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio mewn modd cyson ac effeithiol.<br><br>Fodd bynnag, rydym wedi nodi materion, a fydd, onid ydynt yn cael sylw, yn ychwanegu at y tebygrwydd y bydd y risg yn troi'n ddigwyddiad. |
| **Coch Ambr** | Gan gymryd i ystyriaeth y materion a nodwyd, er y gall yr Awdurdod gymryd rhywfaint o sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi cael eu dylunio'n addas a'u bod yn cael eu defnyddio mewn modd cyson ac effeithiol, mae angen gweithredu i sicrhau fod y risg hon yn cael ei rheoli. |
| **Coch** | Gan gymryd i ystyriaeth y materion a nodwyd, ni fedr yr Awdurdod gymryd sicrwydd bod y rheoliadau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi cael eu dylunio'n addas a'u bod yn cael eu defnyddio mewn modd cyson ac effeithiol.<br><br>Mae angen gweithredu er mwyn sicrhau y rheolir y risg. |

**Tabl 1**

| Maes Archwilio | Cyfan-swm Nifer yr Archwiliadau | GWYRDD | GWYRDD AMBR | COCH AMBR | COCH | Gradd D/B | Y Graddfeydd Cyffredinol ar Gyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adolygiadau Systemau | 20 | 13 | 7 | 0 | 0 | 0 | GWYRDD |
| Cydymffurfiaeth | 10 | 4 | 1 | 0 | 1 | 4 | GWYRDD AMBR |
| Contract | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | GWYRDD |
| Adolygiadau Sefydliad | 5 | 2 | 2 | 0 | 1 | 0 | GWYRDD AMBR |
| Adolygiadau Ysgolion | 8 | 5 | 3 | 0 | 0 | 0 | GWYRDD |
| Adolygiadau heb eu Cynllunio | 1 | d/b | d/b | d/b | d/b | 1 | d/b |
| Ymchwiliadau | 7 | d/b | d/b | d/b | d/b | 7 | d/b |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfansymiau** | **52** | **25** | **13** | **1** | **1** | **12** | |

5.4 Y graddfeydd cyffredinol yn seiliedig ar yr holl waith a wnaed yw:

- Mae nifer yr adolygiadau systemau gradd 'Gwyrdd' am 2010/11 yn cyfateb i welliant bychan yn y nifer gafodd raddfa 'Digonol' yn 2009-10; ac
- Mae nifer yr adolygiadau Ysgolion gradd 'Gwyrdd' am 2010/11 yn cyfateb i welliant ar y raddfa 'C' gyffredinol yn 2009-10.

5.5 Mae'r graddau mewn perthynas â Barn Archwilio 'Gwyrdd' ar gyfer systemau ac ysgolion yn golygu y risg lleiaf neu risg isel i'r Awdurdod. Yn seiliedig ar sgôp y gwaith a wnaed, rheolwyr yn gwithredu yn unol â'r argymhellion a wnaed a'r systemau hynny'n parhau i weithredu yn unol â'r bwriad.

5.6 Fodd bynnag, mae'r Rheolwr Archwilio yn ymwybodol o feysydd lle byddai gwendidau rheoli arwyddocaol yn rhwystro'r Cyngor rhag gallu dibynnu'n rhesymol ar y systemau rheolaeth fewnol mewn perthynas â'r systemau hynny a archwiliwyd yn ystod y flwyddyn. Y meysydd hynny oedd:

- Parhad Busnes - cafodd adolygiad o drefniadau Parhad Busnes y Cyngor Farn Archwilio Coch yn 2009/10 ac o'r herwydd, cafodd cynnydd gyda gweithredu argymhellion allweddol ei ddilyn-i-fyny yn 2010/11 pryd canfuwyd bod yr un farn gyffredinol yn parhau i fod yn briodol. Mae prif ganfyddiadau'r adolygiadau yn ymwneud â diffyg cynlluniau ffurfiol ac ysgrifenedig sydd wedi eu cymeradwyo mewn perthynas â Pharhad Busnes a Chynlluniau Adfer yn dilyn Trychineb TGCh. Cafodd y cyfrifoldeb am Barhad Busnes ei drosglwyddo o Adnoddau Dynol i'r Adran Gynllunio a Gwasanaethau Amgylcheddol yn ystod y cyfnod ac mae Dogfen Cychwyn Prosiect bellach wedi cael ei pharatoi i gynhyrchu'r cynlluniau angenrheidiol.
- Rheoli Risg - Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran datblygu a sefydlu'n gadarn, system ffurfiol ar gyfer Rheoli Risg yn y Cyngor. Fodd bynnag, hyd yma, nid oes Cofrestr ffurfiol o Risgiau Corfforaethol wedi cael ei chynhyrchu. Cynhaliwyd cyrsiau a gweithdai Rheoli Risg yn ystod y flwyddyn ar gyfer swyddogion ac Aelodau.
- Llywodraethu - Roedd y Cynllun Archwilio Mewnol yn cynnwys adolygiadau mewn perthynas â Llywodraethu, fodd bynnag, oherwydd nifer yr adroddiadau sicrwydd gan drydydd partïon yn y maes hwn yn y gorffennol a nifer y cynlluniau gweithredu a oedd yn eu lle, gohiriwyd yr adolygiadau hyn tan 2011/12. Roedd y Bwrdd Adfer yn ei le am y rhan fwyaf o'r cyfnod ac roedd yn canolbwyntio ar faterion Llywodraethu. O'r herwydd roedd sicrwydd Archwilio Mewnol ynghylch trefniadau llywodraethu yn dibynnu ar ein hadolygiadau Archwilio Mewnol a'r adroddiadau sicrwydd gan asiantaethau trydydd parti. At ei gilydd, mae'r Cyngor wedi gwneud llawer i wella ei drefniadau llywodraethu ac mae llawer mwy o waith wrthi'n cael ei ddatblygu.

Ystyrir bod y rhain yn faterion pwysig i'r Cyngor a bod angen rhoi sylw iddynt cyn gynted ag sy'n bosibl.

5.7 Dylid nodi na all unrhyw system o reolaethau mewnol ond ddarparu sicrwydd rhesymol, ac nid hollol, yn erbyn camddatganiadau sylweddol neu golled.

Nid oedd yr archwiliadau a wnaed ac a gwblhawyd yn nodi unrhyw feysydd lle'r oedd pryder ac sy'n cael eu hystyried yn arwyddocaol neu'n dyngedfennol i fusnes y Cyngor yn gyffredinol ac eithrio'r rheiny y sonnir amdanynt yn 5.6 uchod.

## 6. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

6.1 Mae canlyniad yr holl adroddiadau Archwilio Mewnol a gwblheir yn destun adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio drwy adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol Chwarterol y Rheolwr Archwilio. Byddir yn adrodd mewn manylder i'r Pwyllgor Archwilio ar unrhyw adolygiad system sy'n derbyn barn sicrwydd 'Cyfyngedig' neu adolygiad fydd yn derbyn gradd 'D' neu 'E'.

6.2 Yn 2010-11, cafwyd dau ganlyniad mewn perthynas â Pharhad Busnes a Rheoli Risg sydd wedi adlewyrchu'n andwyol ar y farn o safbwynt y fframwaith rheolaeth fewnol a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**RHEOLWR ARCHWILIO - RSM TENON**
**26 Mai 2011**

**Perfformiad yn erbyn Cynllun 2010/11**
**Atodiad A**

| ADOLYGIADAU SYSTEMAU | | | |
|---|---|---|---|
| **Maes Archwilio** | **Dyddiau** | **Statws** | **Gradd yr Adroddiad Terfynol** |
| **CORFFORAETHOL** | | | |
| **Corfforaethol** | | | |
| Rheoli Risg – Datganiad Sefyllfa | 15 | D/B | Mae'r Rh-g Dros Dro wedi ail-raglennu gweithredu Rheoli Risg i 2011/12 |
| Adolygiad Gwerth am Arian – Rheoli'r Fflyd Gerbydau | 25 | | Edrych ar newidiadau yn 2011/12 |
| Parhad Busnes – Dilyn-i-fyny | 5 | Terfynol | BRON DIM CYNNYDD |
| Tracio Argymhellion – AM – Adolygu Dilysu Hunanasesiadau | 15 | | Dygwyd ymlaen i 2011/12 |
| Tracio Argymhellion nad oes wnelont ag AM | 15 | | Dygwyd ymlaen i 2011/12 |
| Rhestrau Eiddo – Dilyn-i-fyny | 5 | Gohiriwyd | Cais gan y Cyfarwyddwr Cyllid i ohirio i 2011/12 |
| Rheoli a Storio Cofnodiadau | 20 | Disodlwyd | Disodlwyd gan ddigwyddiadau gan gynnwys adeilad a systemau newydd |
| Trefniadau Rheoli Asedau | 20 | | Dygwyd ymlaen i 2011/12 |
| Fframwaith Llywodraethu | 20 | | Dygwyd ymlaen i 2011/12 |
| **Rheolwr-gyfarwyddwr** | | | |
| Datblygu Economaidd | 20 | Terfynol | GWYRDD/AMBR |
| Lwfansau Aelodau | 15 | Drafft | |
| **Polisi** | | | |
| Adolygiad Iechyd Corfforaethol | 20 | | Dygwyd ymlaen i 2011/12 |
| Rheoli Perfformiad – Cyswllt ag Amcanion Corfforaethol | 20 | | Dygwyd ymlaen i 2011/12 |
| Prosesau Cynllunio Busnes | 20 | D/B | I'w wneud gan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Sgriwtini |
| **TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | | |
| **Gwasanaethau Tai** | | | |
| Rhenti Tai | 15 | Terfynol | GWYRDD |
| **CYLLIDEB** | | | |
| **Cyllid** | | | |
| Casglu Arian | 15 | Terfynol | GWYRDD |
| Mân-ddyledwyr | 15 | Terfynol | GWYRDD |
| Taliadau Credydwyr | 15 | Terfynol | GWYRDD |
| Lejer Ariannol | 15 | Terfynol | GWYRDD |
| Budd-daliadau Tai – Allweddol | 25 | Drafft | |
| Rheoli Trysorlys | 10 | Drafft | |
| Y Dreth Gyngor | 20 | Terfynol | GWYRDD |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | 20 | Terfynol | GWYRDD |
| Cyflogau a Goramser | 15 | Terfynol | GWYRDD/AMBR |
| Cardiau Pwrcasu Corfforaethol | 15 | Yn mynd rhagddo | |
| Pennu a Monitro Cyllideb | 20 | | Cais i ohirio gan y Pennaeth Gwasanaeth Cyllid |
| Trefniadau Pwrcasu, Cydymffurfiaeth ac E-dendro | 20 | | Dygwyd ymlaen i 2011/12 |
| **TG** | | | |
| Adolygiad o Gapasiti'r Rhwydwaith | 10 | | Dygwyd ymlaen i 2011/12 |
| Gwaith Arall – i'w gytuno gyda TGCh | 10 | | Dygwyd ymlaen i 2011/12 |
| **YR AMGYLCHEDD A GWASANAETHAU TECHNEGOL** | | | |
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | |
| Rheoli/Ailgylchu Gwastraff | 25 | Drafft | |
| **Cynllunio a Gwasanaethau Amgylcheddol** | | | |
| TIG - Cynllun Newydd - Wedi ei newid ar gais i adolygiad dilyn-i-fyny o TIG & EHG | 15 | Terfynol | CYNNYDD DA |
| **ADDYSG A HAMDDEN** | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | |
| Archifau | 15 | D/B | Disodlwyd gan ddigwyddiadau gan gynnwys adeilad a systemau newydd |
| **Addysg** | | | |
| Cyllido Chweched Dosbarth | 10 | | Wedi'i gynnwys yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Adolygiadau'r Ysgolion Uwchradd |
| Cynnal | 15 | Drafft | |
| Grant LlCC – Cefnogi Prifathrawon Ysgolion Bach | 10 | Terfynol | GWYRDD |
| LlCC WAG – Symud o Gyfnod Allweddol 2 - 3 | 10 | D/B | Grant wedi dod i ben |
| Grantiau Ysgol LlCC i Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned | 10 | Terfynol | GWYRDD |
| Brecwast am Ddim LlCC | 10 | Terfynol | GWYRDD |
| Adolygiad Thematig o'r Ysgolion | 10 | Drafft | D/B – i bwrpas cynghori |
| Uned Lyfryddol | 15 | Terfynol | GWYRDD |
| **Hamdden a'r Gymuned** | | | |
| Datblygu Chwaraeon | 15 | Terfynol | GWYRDD |
| **Adolygiadau ar Hap** | | | |
| Adolygiad ar Hap rhif 1 | 10 | | I'w gynnwys yn yr Adolygiadau Sefydliad yn 2011/12 |
| Adolygiad ar Hap rhif 2 | 10 | | Fel yr uchod |
| Adolygiad ar Hap rhif 3 | 10 | | Fel yr uchod |
| | | | |

| **ADOLYGIADAU SEFYDLIAD** | | | |
|---|---|---|---|
| **Maes Archwilio** | **Dyddiau 2010/11** | **Statws** | **Gradd yr Adroddiad Terfynol** |
| **ADDYSG A HAMDDEN** | | | |
| **Addysg** | | | |
| Ysgol Bryngwran | 5 | Terfynol | GWYRDD/AMBR |
| Ysgol Ffrwd Win | 5 | Terfynol | GWYRDD |
| Ysgol Llanfairpwll | 5 | Drafft | |
| Ysgol Aberffraw | 5 | Terfynol | GWYRDD |
| Ysgol Esceifiog | 5 | Terfynol | GWYRDD |
| Ysgol Llannerch-y-medd | 5 | Terfynol | GWYRDD |
| Ysgol Pencarnisiog | 5 | Terfynol | GWYRDD |
| Ysgol Uwchradd Bodedern | 10 | Yn mynd rhagddo | Cychwyn 08-03-11 |
| Dilyn-i-fyny Ysgolion (Y cyfan gafodd radd D neu E yn 09/10) | 10 | | Dygwyd ymlaen i 2011/12 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes a Gwybodaeth** | | | |
| Canolfan Hamdden Amlwch | 10 | Terfynol | GWYRDD/AMBR |
| **TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | | |
| **Yr Uned Ddarparu** | | | |
| Cartref Henoed Garreglwyd | 15 | Terfynol | GWYRDD |
| Plas Penlan | 15 | Terfynol | GWYRDD |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | |
| Canolfan Gofal Dydd Biwmares | 15 | | Gohiriwyd ar gais y rheolwyr |
| **Cyfanswm Dyddiau Systemau a Sefydliad** | **810** | | |

| **ADRODDIADAU HEB EU CYNLLUNIO 2010-11** | | | |
|---|---|---|---|
| **Maes Archwilio** | **Dyddiau 2010/11** | **Statws** | **Gradd yr Adroddiad Terfynol** |
| Ymchwiliad – Grant Gwaith Trwsio 08-09 | | Yn mynd rhagddo | D/B |
| Ymchwiliad 1 – Para 4.3 28-09-10 | | Terfynol | D/B |
| Ymchwiliad 2 – para 4.4 28-09-10 | | Terfynol | D/B |
| Ymchwiliad 3 – para 4.5 28-09-10 | | Terfynol | D/B |
| Ymchwiliad 4 – para 4.6 28-09-10 | | Terfynol | D/B |
| Ymchwiliad 5 – para 4.5 14-12-10 | | Terfynol | D/B |
| Ymchwiliad 6 – para 4.6 14-12-10 | | Terfynol | D/B |
| Ymchwiliad 7 - para 4.4 24-03-11 | | Terfynol | D/B |
| Ymchwiliad 8 - para 4.5 24-03-11 | | Yn mynd rhagddo | D/B |
| Parcio Annhroseddol | | Terfynol | D/B |
| Queens Park – Dilyn-i-fyny Sicrwydd Coch | | Terfynol | CYNNYDD RHESYMOL |
| Cynllun ‘Walk Through’ CFL Conwy | | Terfynol | D/B |
| Cynllun ‘Walk Through’ CFL Gwynedd | | Terfynol | D/B |
| Cynllun ‘Walk Through’ CFL Dinbych | | Terfynol | D/B |
| Contract Prydau Ysgol – Dilyn-i-fyny | | Terfynol | CYNNYDD DA |
| Adolygiad Rhyngwyneb Ariannol | | Drafft | D/B |
| NFI 2010 | | Terfynol | GWYRDD/AMBR |

| **DYGWYD YMLAEN O 2009-10** | | | |
|---|---|---|---|
| **Maes Archwilio** | **Dyddiau 2010/11** | **Statws** | **Gradd yr Adroddiad** |

| | | | Terfynol |
|---|---|---|---|
| Integreiddio | 15 | Terfynol | GWYRDD/AMBR |
| Rheoli'r Fflyd | 10 | Yn mynd rhagddo | I'w ryddhau yn 2011/12 |
| Lwfansau Hyfforddi | 10 | Terfynol | GWYRDD/AMBR |

**2009-10 ADRODDIADAU TERFYNOL A GYHOEDDWYD**

| **Maes Archwilio** | **Dyddiau** | **Statws** | **Gradd yr Adroddiad Terfynol** |
|---|---|---|---|
| Budd-daliadau Tai | 25 | Terfynol | Digonol |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | 20 | Terfynol | Sylweddol |
| Y Dreth Gyngor | 20 | Terfynol | Sylweddol |
| Lejer Cyffredinol | 15 | Terfynol | Digonol |
| Cyflogau Athrawon | 20 | Terfynol | Sylweddol |
| Ysgol Penysarn | 5 | Terfynol | C |
| Cyflogau | 15 | Terfynol | Digonol |
| Credydwyr | 15 | Terfynol | Digonol |
| Taliadau i Gartrefi Preifat | 15 | Terfynol | Sylweddol |
| Cartref Plant Queen's Park | 10 | Terfynol | Cyfyngedig |
| Ysgol Y Fali | 5 | Terfynol | C |